11 Hydref 2024

**Parthed: Ymgyngoreion mewn perthynas â Threfniadaeth Ysgolion – cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg**

Annwyl Aelodau'r Cabinet,

Rwyf wedi cael fy nghyfarwyddo gan Bwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant y Cyngor yma i gyfleu sylwadau'r Aelodau mewn perthynas â'r **Drefniadaeth Ysgolion Statudol – cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o Ddatblygiad Tai Llanilid, a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg**, ac i sicrhau bod y sylwadau'n cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei drafod gan y Cabinet yn ystod ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024.

Cafodd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant gyfle i weithredu fel ymgyngoreion ac fe wnaethon nhw roi eu hadborth a'u sylwadau mewn perthynas â'r cynnig yn ystod ei gyfarfod ar 11 Medi 2024. Cafodd Aelodau drafodaeth gadarnhaol mewn perthynas â'r adroddiadau a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

Mae modd bwrw golwg ar drafodaethau llawn y pwyllgor ar yr eitem hon **yma.**

I grynhoi, trafodwyd y pwyntiau canlynol mewn perthynas â Threfniadaeth Ysgolion Statudol – cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg.

• Roedd Aelod o'r farn nad oedd darn pwysig o wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad mewn perthynas â'r cyfleoedd ariannu a buddsoddi pe bai'r ysgol yn cael ei hadeiladu fel ysgol cyfrwng Cymraeg, fel yr amlinellwyd yn opsiwn 3, wedi'i wneud yn amlwg yn yr adroddiad. Er mwyn helpu i ddeall y cynnig yn well, soniwyd y dylai gwybodaeth o'r fath gael ei wneud yn fwy amlwg yn yr adroddiad. Gofynnodd yr Aelodau am ddatganiad cryfach i gadarnhau a fyddai cynnig i sefydlu Ysgol Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys achos ariannu cryfach wrth geisio cymorth gan Lywodraeth Cymru.

• Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod ymgyngoreion priodol wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys Ysgol Llanhari, RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) a'r Cyngor Cymuned.

• Roedd yr aelodau'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd newydd a fyddai'n codi yn sgil yr ysgol newydd, a'r canlyniad a fwriedir i hybu a chynyddu cyfleoedd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch y data y tu ôl i'r cynigion, gan nodi bod tua 200 o leoedd eisoes ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg. Bu'r Pwyllgor yn trafod sylwadau aelodau eraill o'r Pwyllgor ynghylch y lleoedd gwag a'r lleoedd gwag dros ben sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg cyfagos.

• Roedd Aelod yn bryderus bod y ddarpariaeth addysg ar gyfer trigolion yr ystad o dai newydd yn cael ei phennu gan grantiau a thargedau, yn hytrach nag angen, a theimlai

fod trigolion yn cael eu gorfodi i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd yr Aelodau'r arwyddion gwreiddiol ar gyfer yr ysgol newydd yma, y bwriedir iddi fod yn ysgol cyfrwng Saesneg. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch capasiti'r ysgol cyfrwng Saesneg.

• Roedd Aelod yn bryderus ynghylch goblygiadau ariannol y cynnydd posibl mewn cludiant o'r cartref i'r ysgol, a oedd wedi'i amlygu, a chynaliadwyedd hyn.

• Nododd Aelod y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â'r bwletin adeiladu, ac felly byddai'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Gofynnodd yr Aelod am sicrwydd y byddai Ysgol Gynradd Dolau hefyd yn cydymffurfio'n llawn a byddai'n ysgol yr un mor hygyrch i unrhyw blentyn sy'n dymuno derbyn addysg cyfrwng Saesneg.

• Gofynnodd Aelod a fyddai modd cryfhau iaith a bwriad y cynnig o ran darparu dosbarth Meithrin, e.e. 'Byddwn ni'n gweithio gyda Mudiad Meithrin i sefydlu dosbarth Meithrin'... yn hytrach na ‘cheisio darparu dosbarth Meithrin'.

• Teimlai Aelod fod yr elfennau Adnoddau Dynol ychydig yn amwys a ddim yn gyson drwy'r ddogfen o ran staff cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Dolau, a hoffai i'r Cyngor roi sicrwydd i staff o'r cychwyn cyntaf.

• Nododd Aelod fod sawl Aelod wedi sôn am leoedd gwag dros ben, ond teimlai'r mai’r hyn sy’n bwysig yw beth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r lleoedd gwag hynny, a theimlai bod angen cynnal ymgyrch ar y cyd yn gynharach yn y broses, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig i bobl ddeall manteision addysg cyfrwng Cymraeg a chael y dewis. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr na fydden ni ymhen 10 mlynedd mewn sefyllfa lle mae mwy o leoedd gwag na'r hyn sydd nawr. Mae hefyd yn bwysig ceisio cyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

• Croesawodd nifer o aelodau'r Pwyllgor y cynnig gan nodi potensial y cynnig i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yma.

Yn gywir
**Christian Hanagan**
**Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**